

LACY, De, arglwyddiaid Ewias, Weobley, a Llwydlo.

Hanoedd WALTER, yr arglwydd 1af (bu farw 1085), o Lassy, Normandi, a rhestrir ef ymhlith arloeswyr sefydliad y Normaniaid yn rhannau isaf goror Cymru. Wedi i'w stadau Cymreig gael eu dal, yn olynol, gan ei feibion, ROGER (fe'u cymerwyd oddi arno ef yn 1094 oblegid iddo wrthryfela) a HUGH I (a fu farw yn 1121 heb aer uniongyrchol), daethant, maes o law, i feddiant ei yr, GILBERT (fl. 1150), tad HUGH II (bu farw 1186), a oedd yn un o filwyr y groes ac yn un o'r gw r pennaf ym mlynnyddoedd cyntaf concwest Iwerddon. Bu i dri mab Hugh II - WALTER, HUGH, a WILLIAM - gyswllt agos â Chymru serch mai yngl n â hanes perthynas Lloegr ac Iwerddon y ceir eu henwau fynychaf.

Daeth y stadau Cymreig i feddiant WALTER (bu farw 1241), mab hynaf Hugh II a Rose ' of Monmouth '. Yn ystod yr ymgyrch i Iwerddon yn 1210 bu raid iddo ddioddef dial arno gan y brenin John oblegid bod a fynnai ef yr adeg honno â helyntion [Llywelyn](#) a [William de Breos](#), eithr yn ddiweddarach fe'i ceir yn gadarn o blaid y Goron. Yr oedd yn un o arglwyddi'r Mars a bleidiodd y brenin yn argyfwng 1215 ac a bleidiodd Harri III adeg gwrthryfel [Marshal](#) yn 1233. Ni fu HUGH, iarll 1af Ulster, mor gymodlon â'i frawd Walter. Gorfu iddo ef dreulio llawer blwyddyn yn alltud, ac efallai iddo fod am gyfnod byr yn ffoadur yng Nghymru. Mab Hugh II o ferch i Roderick O'Connor oedd WILLIAM (bu farw 1233). Priododd ef Gwenllian, merch i [Llywelyn I](#)- hithau, fel ei brawd [Gruffydd](#), yn ffrwyth uniad anghyfreithlon a wnaethai [Llywelyn](#) cyn iddo briodi [Joan](#), merch y brenin John. Yn ystod ei gweddwdod hir - bu farw yn 1281 - efallai iddi fyw yn Llŷs Gwenllian ar faenor brenhinol Ystrad Owain yng Nghimeirch, cwmwd yn sir Ddinbych, a derbyn ei chynhaliaeth o diroedd yn y gymdogaeth honno a roddwyd iddi gan ei thad ac o'i thiroedd gwaddol yn Iwerddon.

Pan ddarfu am y llinell wrywol, aeth eiddo teulu De Lacy yn y goror i berthyn, yn y 14eg ganrif, trwy briodas, i deulu [Mortimer](#), [ieirll March](#). Bu aelodau o'r teulu yn noddwyr hael i abatai Llanthony a S. Peter's, Caerloyw.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *[A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#)*, Cyf. I

J. E. Lloyd, *[A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#)*, Cyf. II

Oxford Dictionary of National Biography

Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)

Archaeologia Cambrensis, 1919, 292 et seq.

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q1180082](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

